

# Gwerthusiad Rhaglen Tadau Gofalgar Cymru



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 18/2012

## Beth yw Tadau Gofalgar?

Grŵp rhaglen waith gwirfoddol yw Tadau Gofalgar Cymru (TGC) ar gyfer dynion sydd mewn perygl o gyflawni trais yn y cartref ac felly mewn perygl o achosi niwed i'w plant. Mae'r rhaglen Tadau Gofalgar yn tarddu o Canada ond addaswyd cynnwys y rhaglen a'r ddamcaniaeth a'u cymhwyso yng Nghymru. Cyflwynwyd TGC gan yr NSPCC ac roedd yn cynnwys grŵp 'hwyluswyr', a gyflwynodd y gwaith grŵp, cydlynu canolog a rheoli, a Gweithwyr Cynnal Partner yn gweithio gyda phartneriaid cleientiaid neu gyn bartneriaid er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u lles. Un ddamcaniaeth ganolog y tu ôl i TGC yw y bydd dynion yn fwy awyddus i gymryd rhan mewn ymyriad i fynd i'r afael â'u hymddygiad treisgar os bydd y ffocws yn ôl pob golwg ar eu perthynas gyda'u plant. Dechreuwyd y rhaglen TGC yn gyntaf yn 2006 ac fe'i ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Trefnwyd y rhaglen gan NSPCC Cymru.

## Gwerthusiad Tadau Gofalgar Cymru

Nod y gwerthusiad, a oedd yn rhychwantu dwy flynedd y Rhaglen, oedd sefydlu effeithiolrwydd y rhaglen wrth newid agweddau dynion ymosodol a'u hymddygiad ac felly eu hatal rhag gwneud niwed i'w plant ac i famau eu plant.

### Dulliau

Roedd y gwerthusiad yn cynnwys y dulliau canlynol:

- o Cyfweiliadau gyda hwyluswyr Tadau Gofalgar a chleientiaid
- o Cyfweiliadau gyda phartneriaid neu gyn bartneriaid o gleientiaid Tadau Gofalgar, heb gysylltiad, o reidrwydd, â'r cyfranogwyr ymchwil cleientiaid
- o Mesurau seicolegol safonol a roddwyd i gleientiaid TGC ar ddechrau ac ar ddiwedd y rhaglen
- o Cyfweiliadau gyda staff a oedd wedi cyfeirio dynion at TGC
- o Symposiwm ymchwil ac ymarferwyr i ystyried pwrpas Tadau Gofalgar ac i wneud argymhellion ar gyfer achredu'r cynllun

### **Canfyddiadau allweddol:**

- Dangosodd pob un o'r dynion a oedd wedi bod drwy'r Rhaglen TGC ac a gymerodd ran yn yr ymchwil welliannau yn eu hymatebion ymosodol i'r bobl y maent yn rhyngweithio â hwy yn gyffredinol, gan gynnwys, ond nid bob amser, fenywod.
- Nid oedd nifer o ddynion a gymerodd ran yn yr ymchwil (sydd ynddo'i hun yn sampl bach) yn ymddangos eu bod yn derbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad ymosodol tuag at fenywod
- Y prif ddull o newid ar gyfer y rhaglen, fel yr adroddwyd gan yr ymatebwyr ddynion ac a gadarnhawyd gan hwyluswyr a gweithwyr proffesiynol allanol, oedd bod y dynion yn gallu adnabod yr effaith y mae eu hymddygiad yn ei chael ar eu plant.
- Mewn rhai achosion, rhoddodd asiantaethau a oedd wedi cyfeirio cleientiaid at y rhaglen TGC y gorau i gymryd rhan yn y gwaith o fonitro'r risg yn oedd y cleient yn cynrychioli i'w deulu. Er bod staff yr NSPCC yn gallu rheoli risgiau yn ddigonol, yn bennaf drwy waith y Gweithiwr Cynnal Partner, byddai'r risgiau hyn yn cael eu rheoli'n well trwy gyfranogiad parhaus yr asiantaethau cyfeirio.
- Teimlodd cleientiaid TGC bod yr ymwybyddiaeth o effaith eu hymddygiad ar eu plant oedd y gyrrwr pwysicaf yn y newidiadau a brofwyd ganddynt o ganlyniad i'r rhaglen TGC.
- Yn gyffredinol cadarnhaodd hwyluswyr adroddiadau ymatebwyr cleient am y newidiadau yr oeddent wedi'u profi
- Teimlwyd gan hwyluswyr TGC bod y syniad o ddulliau o fagu plant sy'n canolbwyntio ar blant a rhieni yn ystyriaeth bwysig ar gyfer y cleientiaid o ran sicrhau dealltwriaeth newydd o'u hymddygiad.
- Nodwyd effeithiau cadarnhaol y rhaglen TGC yn gyffredinol gan bob un ond un ymatebwr cyn bartner o ran rheoli ymddygiad ymosodol, ond nid o reidrwydd o ran derbyn cyfrifoldeb am ymddygiad ymosodol yn y gorffennol.

- Barn gyffredin a fynegwyd yn gryf gan ymatebwyr gyn bartner oedd ei bod yn bwysig iddynt fod y rhaglen TGC yn caniatáu i ddynion gydnabod eu trais a'u hymddygiad ymosodol ac yn cymryd cyfrifoldeb amdano.

### **Argymhellion**

- Dylai Tadau Gofalgar barhau i gael eu datblygu, gan ddysgu o'r gwerthusiad ac o ymchwil arall sy'n bodoli eisoes am effeithiolrwydd rhaglenni troseddwr trais yn y cartref.
- Dylai Tadau Gofalgar barhau i geisio cefnogaeth gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â bywydau cleientiaid fel y gellir monitro risgiau yn fwy effeithiol a dylai strwythurau a gweithdrefnau'n cael gweithredu er mwyn ffurfioli rolau a chyfrifoldebau rhyng-asiantaethol.
- Dylai gweithdrefnau cyfeirio fod yn fwy eglur ynghylch faint o wybodaeth y dylid ei rhannu ar y dechrau - roedd rhywfaint o ddryswch am ba asiantaeth fyddai'n gwirio cofnodion dynion.
- Pan nad yw'n bosibl i barhau i ymgysylltu ag asiantaethau

statudol o ran monitro risgiau a chynnydd dynion, gallai'r rhaglen ystyried cynnwys asiantaethau eraill megis staff y sector gwirfoddol i weithio gyda'r dynion.

- Dylai cleientiaid TGC gael eu hasesu a'u monitro yn amlach er mwyn sefydlu eu cymhelliant ar gyfer triniaeth ac i ddeall unrhyw newidiadau o ran agwedd neu ymddygiad, yn enwedig os nad yw eu partner neu gyn-bartner yn derbyn cymorth gan y Gweithiwr Cynnal Partner .
- Dylid ffocysu ymdrech ar wella cyfraddau cadw, oherwydd y teimlad bod elfen gwaith grŵp y rhaglen Tadau Gofalgar yn llwyddiannus: mae gwerth yr elfen hon yn cael ei lleihau os yw maint y grŵp yn lleihau

Awdur: KM Research and Consultancy Ltd; Katie McCracken, Director, KM RC  
Dr Toity Deave, Health & Life Sciences, University of the West of England, Bristol

ISBN: 978 0 7504 7247 2